# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mathau penodol o ysgol neu sefydliad arall*

### 56 Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr ("y rhestr") at ddiben is-adran (3).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhestr, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(3) Dim ond os yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr wedi ei gynnwys yn y rhestr y caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn y sefydliad hwnnw, yn ddarostyngedig i unrhyw esemptiadau rhagnodedig.

(4) Dim ond ar gais perchennog sefydliad y caiff Gweinidogion Cymru gynnwys y sefydliad hwnnw yn y rhestr.

(5) Rhaid i reoliadau ddarparu ar gyfer—

(a) cynnwys y rhestr;

(b) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad yn y rhestr;

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy tra bo'r sefydliad wedi ei restru (gan gynnwys gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o'r fath);
(d) dileu'r sefydliad o'r rhestr;
(e) yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau—
(i) i wrthod rhestru sefydliad;
(ii) i ddileu sefydliad o'r rhestr;
(iii) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn y sefydliad neu i beidio â chymeradwyo newid iddynt.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yw sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'n—
(a) sefydliad yn y sector addysg bellach,
(b) ysgol annibynnol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)),
(c) sefydliad addysgol annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25)), sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o'r Ddeddf honno), neu
(d) Academi 16 i 19.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**
**I2** A. 56 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(f)**
**I3** A. 56 mewn grym ar 1.9.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/373, **ergl. 8(d)**
**I4** A. 56(1) mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2020/1182, **rhl. 4(2)(a)**
**I5** A. 56(4)-(6) mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2020/1182, **rhl. 4(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.